# SMR 12: Safonau Lles i Amddiffyn Moch

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

**Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles moch trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer eu cadw a gofalu amdanyn nhw. Rhaid i bawb sy'n cadw moch gadw at y rheolau hyn, yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm. (SMR 13)**

## Y prif ofynion

- Os ydych yn cadw mwy na 10 anifail, rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau,
- Gellir cadw hychod ar eu pen eu hunain, o 7 niwrnod cyn diwrnod geni'r perchyll tan fod y perchyll wedi cael eu diddyfnu'n llwyr.
- Os oes gennych lai na 10 hwch, gallwch gadw hychod a banwesi ar eu pen eu hunain cyn belled â bod eu llociau'n bodloni'r safonau cyffredinol.
- Mae safonau penodol ar gyfer moch sy'n cael eu cadw i mewn ar gyfer eu magu a'u pesgi. Y gofynion hyn yw:
- Bydd y moch yn gallu troi o gwmpas heb drafferth bob amser, gan gynnwys pan fyddant wedi'u clymu (pan fydd hynny wedi'i ganiatáu);
- Peidiwch byth â chlymu'ch moch ac eithrio at ddiben milfeddygol. Rhaid i'r tennyn ateb y gofynion canlynol:
  - ni ddylai achosi niwed i'r mochyn a dylech ei archwilio'n rheolaidd a'i addasu yn ôl y gofyn iddo ffitio'n gyfforddus;
  - bydd y tennyn yn ddigon hir i'r mochyn allu troi o gwmpas, gorffwys a llyfu ei hun, ac ni fydd yn gallu tagu, anafu nac achosi poen i'r mochyn.

**Y Lloc**

Bydd wedi'i adeiladu fel bod pob mochyn yn gallu:

- Sefyll, gorwedd a gorffwys heb drafferth;
- Cael lle glân, cyfforddus a sych i orffwys arno;
- Gweld moch eraill, oni bai bod y mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol;
- Cadw tymheredd cyfforddus;
- Cael digon i le i orwedd yr un pryd;
- Ni fydd arwynebedd unrhyw stâl neu loc yn llai na hyd y mochyn wedi'i luosi â'i hun ac ni fydd unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn. I'r pwrpas hwn, bydd hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei swch at fôn ei gynffon pan fydd yn sefyll â'i gefn yn syth.
- Ni fydd y paragraff uchod yn gymwys i hwch/banwes am y cyfnod o saith niwrnod cyn y diwrnod y disgwylir iddi eni ei pherchyll tan y diwrnod pan gaiff ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y mae'n eu mabwysiadu) eu diddyfnu.

Cewch fwy o wybodaeth am lociau moch yn y Cod Lles Moch.

## Archwiliadau maes

- Gofalwch fod y lloc yn ateb y gofynion yn y Cod Lles Moch.
- Gofalwch fod gan y ffermwr neu'r ceidwad gopi o'r Cod neu'n gwybod lle i gael copi.

## Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a:

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn

© Hawlfraint y Goron 2014 WG23793